# Foresight i reoli cronfa ecwiti £50 miliwn ar gyfer y Gronfa Buddsoddi i Gymru

- **Mae Cronfa Buddsoddi i Gymru £130 miliwn Banc Busnes Prydain yn cynnig cymysgedd o gyllid dyled ac ecwiti, gan helpu amrywiaeth o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru i gychwyn, tyfu neu aros ar y blaen**
- **Dewisiwyd Foresight Group, un o fuddsoddwyr rhanbarthol mwyaf gweithgar y DU mewn BBaCh, i reoli'r gronfa cyllid ecwiti gwerth £50 miliwn, a fydd yn darparu buddsoddiadau ecwiti rhwng £250,000 a £5 miliwn ar gyfer cwmnïau Cymreig.**

**23 Tachwedd 2023, Caerdydd:** Mae Foresight Group ("Foresight"), rheolwr buddsoddiadau ecwiti preifat a seilwaith rhestredig blaenllaw, wedi cyhoeddi y bydd yn rheoli cronfa ecwiti o £50 miliwn ar gyfer y Gronfa Buddsoddi i Gymru ("IFW"), sef IFW - Foresight Equity Finance ("y Gronfa").

Bydd yr IFW o £130 miliwn, a gaiff ei weithredu gan Fanc Busnes Prydain ("BBB"), yn darparu benthyciadau o rhwng £25,000 a  £2 filiwn, a buddsoddiadau ecwiti rhwng £250,000 a £5 miliwn i gynorthwyo amrywiaeth o fusnesau bach a chanolig ar draws Cymru i gychwyn, datblygu neu aros ar y blaen.

Dyma'r ail gronfa i Foresight Private Equity ei chyhoeddi yn 2023, a'r ail dro i BBB benodi Foresight yn Rheolwr Cronfa. Yn 2018, penodwyd Foresight yn Rheolwr Cronfa ar gyfer Cronfa Buddsoddi Injan Canolbarth Lloegr ("MEIF", menter gwerth £250 miliwn a lansiwyd gan BBB i gynorthwyo twf BBaCh ar draws canolbarth Lloegr.

Mae Foresight wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn economïau lleol a chaniatáu iddynt lewyrchu, ac mae'r cwmni eisoes wedi lansio 12 cronfa ar gyfer rhanbarthau penodol ar draws y DU ac Iwerddon, gan greu miloedd o swyddi lleol o safon uchel. Yn achos IFW, bydd Foresight yn efelychu'r strategaeth lwyddiannus y mae hi wedi ei defnyddio eisoes mewn rhannau eraill o'r DU ac Iwerddon.

Caiff IFW - Foresight Equity Finance ei reoli gan dîm Foresight yng Nghaerdydd, a'i gynorthwyo gan dîm Ecwiti Preifat ehangach Foresight, sy'n cynnwys dros 50 o broffesiynolion buddsoddi ar draws ei rwydwaith o swyddfeydd yn y DU ac Iwerddon. Bydd y Gronfa'n agored i bob sector, gan ddarparu buddsoddiadau ecwiti o rhwng £250,000 a £5 miliwn ar gyfer BBaCh ar draws Cymru.

**Dywedodd Claire Alvarez, sy'n Bartner yn Foresight Group:** *"Rydyn ni wrth ein bodd i gyhoeddi IFW - Foresight Equity Finance, cronfa ecwiti £50 miliwn yn benodol i Gymru. Dyma'r ail dro i BBB ein penodi ni'n Rheolwr Cronfa, ac rydyn ni'n falch o allu parhau i weithio ochr yn ochr â BBB er mwyn helpu i gau'r blwch ariannu wrth ddarparu cyllid cyfalaf i BBaCh.*

*"Rydyn ni'n edrych ymlaen at gynorthwyo amrywiaeth o gwmnïau addawol ar draws Cymru i gyflawni eu huchelgeisiau o ran twf, cael effaith gadarnhaol ar eu milltir sgwâr, a chreu swyddi lleol o safon uchel."*

**Dywedodd John Crodrey, Pennaeth Foresight Group:** *"Rydyn ni'n credu bod yna gymuned lewyrchus o gynghorwyr busnes ac ecosystem o fusnesau sydd ar dwf yng Nghymru, ac rydyn ni'n falch o gael lansio yma'n swyddogol. Rydyn ni'n parhau i weld busnesau addawol ar draws pob rhanbarth yng Nghymru, ac rydyn ni'n edrych ymlaen at gael cynorthwyo BBaCh Cymru i dyfu, arloesi a chyflawni eu huchelgeisiau fel busnes."*

Nod IFW yw gyrru twf economaidd trwy gynorthwyo arloesi a chreu cyfleoedd lleol ar gyfer busnesau newydd a'r rhai sydd ar dwf ar draws Cymru. Bydd IFW yn cynyddu'r cyflenwad a'r amrywiaeth o gyllid cyfnod cynnar sydd ar gael i fusnesau llai ar draws Cymru, gan ddarparu cyllid ar gyfer busnesau na fyddai'n derbyn buddsoddiad fel arall o bosibl, ac yn helpu i chwalu'r rhwystrau i gael cyllid.

Mae Foresight yn darparu mwy na dim ond buddsoddiad, ac mae'n gweithio mewn partneriaeth â BBaCh addawol - ar draws pob sector a phob math o drafodion - er mwyn caniatáu i'r sylfaenwyr a'r timau rheoli gyflawni eu huchelgeisiau busnes. Trwy gynnig dirnadaeth weithredol, arweiniad, arbenigedd a chysylltiadau, mae Foresight yn caniatáu i BBaCh gyflawni eu gweledigaeth, cael effaith gadarnhaol ar eu milltir sgwâr a chreu swyddi lleol o safon uchel. Y cwmni yw un o'r buddsoddwyr mwyaf gweithgar mewn BBaCh yn y DU ac Iwerddon; hyd yn hyn yn 2023 mae adran Ecwiti Preifat Foresight wedi cyflawni mwy na 50 o fuddsoddiadau.

**DIWEDD**

**Am fanylion pellach, cysylltwch â:**
Lucy Sherwood: marketing@foresightgroup.eu / +44 (0)20 3667 8100
Chris Barry: Barry@thisisinfluential.com / +44 (0)7733 103 693

**Nodiadau i Olygyddion**

**Am Foresight Group**

Sefydlwyd Foresight Group ym 1984 ac mae'n rheolwyr buddsoddiadau seilwaith a buddsoddiadau ecwiti preifat rhestredig blaengar. Gyda ffocws hirsefydlog ar strategaethau ESG ac sy'n seiliedig ar gynaliadwyedd, ei nod yw darparu elw deniadol ar gyfer ei fuddsoddwyr sefydliadol a phreifat o farchnadoedd preifat sy'n anodd eu cyrchu. Mae Foresight yn rheoli mwy na 400 o asedau seilwaith gyda ffocws ar asedau ynni solar a gwynt ar y tir, bioynni a gwastraff, yn ogystal â phrosiectau sy'n hwyluso ynni adnewyddadwy, atebion rheoli effeithlonrwydd ynni, prosiectau seilwaith cymdeithasol a chraidd, ac asedau coedwigaeth cynaliadwy. Mae ei dîm ecwiti preifat yn rheoli 13 cronfa fuddsoddi â ffocws rhanbarthol ar draws y DU, a chronfa effaith BBaCh sy'n cynorthwyo BBaCh Iwerddon. Mae'r tîm yn adolygu dros 2,500 o gynlluniau busnes bob blwyddyn, ac ar hyn o bryd mae'n cynorthwyo dros 250 o fuddsoddiadau mewn BBaCh. Mae Foresight Capital Management yn rheoli pedair strategaeth ar draws saith cyfrwng buddsoddi.

Mae Foresight yn gweithredu mewn wyth gwlad ar draws Ewrop, Awstralia a'r Unol Daleithiau gydag AUM o £12 biliwn. Rhestrwyd Foresight Group Holdings Limited ar Brif Farchnad Cyfnewidfa Stoc Llundain yn Chwefror 2021, ac mae'n rhan o fynegai FTSE250.

https://www.foresightgroup.eu/shareholders

**Am y Gronfa Buddsoddi i Gymru**

- Dan adain Banc Busnes Prydain, mae'r IFW yn darparu cymysgedd o gyllid ariannu dyled ac ecwiti. Bydd IFW yn cynnig amrywiaeth o opsiynau cyllid masnachol gyda Benthyciadau Llai o rhwng £25k a £100k, cyllid ariannu dyled rhwng £100k a £2m, a chyllid ecwiti o hyd at £5 miliwn. Mae'n gweithio ochr yn ochr â'r ecosystem cyllid busnesau bach rhanbarthol, gan gynnwys canolwyr lleol fel cyfrifwyr, rheolwyr

cronfeydd a banciau, er mwyn cynorthwyo busnesau llai Cymru ar bob cam yn eu datblygiad www.investmentfundwales.co.uk

- Mae’r cronfeydd y mae’r IFW yn buddsoddi ynddynt yn agored i fusnesau sy’n gweithredu’n faterol, neu sy’n bwriadu gweithredu’n faterol ar draws Cymru gyfan.

- Gyda chefnogaeth Nations and Regions Investment Limited, un o is-gwmnïau British Business Bank Plc, mae’r Banc yn fanc datblygu sy’n llwyr eiddo i Lywodraeth EF

- Nid yw Nations and Regions Investment Limited na British Business Bank plc dan awdurdodaeth nac wedi eu rheoleiddo gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (PRA) na’r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA)

- O ran buddsoddiad NRIL ar lefel is-gronfa, nid yw’r buddsoddiad gan Nations and Regions Investments Limited i [.] gyfystyr unrhyw ardystiad neu warant gan Nations and Regions Investments Limited, British Business Bank plc na llywodraeth y Deyrnas Unedig.

- O ran buddsoddiad gan is-gronfa IFW ar lefel cwmni’r buddsoddai, nid yw’r buddsoddiad gan y Gronfa Buddsoddi i Gymru i [.] gyfystyr ag ardystiad neu warant gan Nations and Regions Investments Limited, British Business Bank plc na llywodraeth y Deyrnas Unedig.